# Polisi Cwricwlwm Ysgol Gyfun Gŵyr

*Mae'r Polisi Cwricwlwm yn adlewyrchu yn bennaf Erthygl 28 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sef **hawl plentyn i ddysgu a mynd i'r ysgol** ond yn ogystal erthyglau eraill ee. Rhifau 3,6,12,13,29,30,33,37,39*

**Amcanion**

*Ein prif nod yw cynnig cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol i bob disgybl yn yr ysgol hon fel y gallant ddatblygu yn **ddysgwyr effeithiol, uchelgeisiol a galluog, yn unigolion iach a hyderus, yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus ac yn gyfranwyr mentrus a chreadigol** :*

- Trwy ymchwilio, rhwydweithio ac arbrofi er mwyn sicrhau y bydd profiadau dysgu disgyblion yn ymateb i ofynion *Cwricwlwm i Gymru* fel y gellid gwireddu yn llawn y disgwyliad cyfreithiol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol a statudol i Fl 7 – 9

- Trwy gyflawni holl ofynion statudol *Cwricwlwm i Gymru* o ran dysgu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad

- Trwy ddatblygu ystod o sgiliau cyfannol (yn sgiliau creadigol, datrys problemau, meddwl yn feirniadol, metawybyddiaeth) a hynny'n seiliedig ar ddogfennaeth *Cwricwlwm i Gymru,*

- Trwy ddatblygu'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd (Llythrennedd a Rhifedd, a Chymhwysedd Digidol) sy'n rhan annatod ohonynt ac adlewyrchu'r Fframweithiau Sgiliau Cenedlaethol (anstatudol)

- Trwy ddarparu elfennau statudol ychwanegol *Cwricwlwm i Gymru* e.e. Addysg cydberthynas a rhywioldeb; Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith; Gwerthoedd a Moeseg; Hawliau dynol; Stori Cymru (cynefin)

- Parhau i ymateb i ofynion Cam Cynnydd 5 Cwricwlwm i Gymru trwy sicrhau fod ein dysgwyr yn cael profiadau o holl ofynion elfennau statudol y Cwricwlwm hwnnw e.e. profiadau o'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad; datblygu'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd a Chyfannol, darpariaeth yn seiliedig ar yr elfennau statudol eraill e.e. Addysg cydberthynas a rhywioldeb; Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith; Gwerthoedd a Moeseg; Hawliau dynol; Stori Cymru (cynefin)

- Fel rhan o brosiect "Cymwys Ar Gyfer Y Dyfodol, Cymwysterau Cymru", cyflawni gofynion Cymwysterau Cenedlaethol newydd CBAC – Gwneud i Gymru CA4 a CA5 (arfaethedig) a hynny fesul y 3 ton cyflwyno sef 2025-2027; 2026- 2028; 2027-2029

- Trwy feithrin agweddau cadarnhaol a gwytnwch ym mhob unigolyn fel y gall addasu'n hyblyg i syniadau a sefyllfaoedd newydd

- Trwy hyrwyddo'r gallu i weithio'n annibynnol yn ogystal â chyd-weithio mewn tîm i ddatrys problemau a phenderfynu ar ddulliau priodol o gyflawni tasgau

- Trwy helpu pob unigolyn i ddatblygu safonau personol sydd yn dangos sensitifrwydd tuag at anghenion pobl eraill ac sydd yn eu cynorthwyo i ddatblygu'n oedolion gofalgar a chyfrifol

- Trwy gymell pob unigolyn, boed yn blentyn MATh neu yn blentyn ag ADY, i gyrraedd ei lawn botensial gyda chyfleoedd i hunanwerthuso yn rheolaidd a chynllunio ar gyfer gwneud cynnydd pellach yn y dysgu

- Trwy hybu cyfle cyfartal a'r egwyddor o barch at bob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach

- Trwy sicrhau dilyniant a pharhad rhwng o'r naill Gam Cynnydd i'r llall (Cynradd /Uwchradd)

- Trwy sicrhau ystod eang o gyfleoedd dysgu anffurfiol trwy fwydlen gyfoethog ac amrywiol o gyfleoedd allgyrsiol

**Sut y cyflawnir amcanion cwricwlaidd yr ysgol?**

Yn sylfaenol, gwireddir amcanion cwricwlaidd yr ysgol drwy greu profiadau dysgu cyfoethog mewn gwersi, a thu allan i hynny, sy'n addas i allu pob disgybl, gan ei ganiatáu i ennill corff o wybodaeth berthnasol, cyfres o sgiliau hollbwysig a phrofiadau dysgu heriol a chyfoethog

**CYFNOD CAM CYNNYDD 4**

Yn y crynodeb cyfredol o gynnwys cwricwlwm yr ysgol (Atodiad 1), fe welir y MDaPh / Disgyblaethau Pynciol a gynigir, ynghyd a'r amser a dosrennir iddynt. Ym Ml 7, 8 a 9, mae'r cwricwlwm yn ymateb i ofynion statudol *Cwricwlwm i Gymru* wrth weithredu fesul Meysydd Dysgu a Phrofiad. Wrth weithredu'r cwricwlwm, diogelir arbenigedd y ddisgyblaeth benodol yng nghyd-destun y MDaPh drwy addysgu gan athro sy'n meddu ar gymwysterau arbenigol yn y ddisgyblaeth honno, ond hyrwyddir yn ogystal y cysylltiadau rhwng disgyblaethau e.e. drwy ddilyn thema gyffredin, er mwyn cynnal undod y MDaPh. Addysgir hefyd ar sail dysgu gwahaniaethol ( a ddylai ganiatáu i bob disgybl gyrraedd ei lawn botensial a thorri cwys ei lwybr dysgu personol ) i ddosbarthiadau gallu cymysg, ar wahân i rai disgyblaethau yn y MDaPh Ieithoedd a Mathemateg/Rhifedd ym Mlynyddoedd 8 a 9, lle mae elfen o setio'n digwydd yn unol â pholisi'r Adran. Mae'r cwricwlwm yn agored i bob disgybl ac eithrio'r rhai hynny oherwydd anghenion dysgu dwys a eithrir yn gyfreithiol o rai pynciau.

**CA4**

Bagloriaeth Cymru

- Tan cyflwyno Ton 3 Gwneud i Gymru – Cymwysterau Cymru yn 2027, lle ceir yr opsiwn i gyflawni Prosiect Personol ynghyd ag Unedau / Cymwysterau Sgiliau Bywyd a Sgiliau Gwaith, parheir i gynnig Y Dystysgrif Genedlaethol Her Sgiliau (yr hen Fagloriaeth Cymru) i bob disgybl yn CA4.

- Y mae pob disgybl sy'n dilyn y Fagloriaeth yn cyfranogi mewn rhaglen o brofiadau sy'n ymateb i'r Dystysgrif Genedlaethol Her Sgiliau a ganolbwyntir ar ddatblygu sgiliau bywyd hanfodol a hynny ar ffurf :

  - Ddinasyddiaeth Fyd-eang
  - Y Gymuned
  - Menter a Chyflogadwyedd
  - Project Unigol

- Addysgir y dystysgrif drwy fodd pedair gwers benodol ar amserlen pob disgybl.

- Yn ystod y gwersi, fe feithrinir sgiliau Llythrennedd; Rhifedd; Llythrennedd Digidol; Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau; Creadigedd ac Arloesi; Cynllunio a Threfnu, ac Effeithiolrwydd Personol.

- Disgwylir i bob disgybl gyflawni tair her benodol a phroject drwy gynhyrchu portffolios sy'n cynnwys tystiolaeth o gyrhaeddiad ac a asesir a safonir yn fewnol yn gyntaf cyn eu hachredu yn allanol.

- Rhoddir cyfle i'n dysgwyr ADY i ddilyn y Cwrs Llwyddo (SWEET) yn lle'r Fagloriaeth a hynny naill ai ar Lefel 1 neu Lefel 2. Dyma gwrs sy'n hyrwyddo sgiliau bywyd a byd gwaith.

Pynciau Craidd a Dewisol

- Yn ogystal â'r Dystysgrif Her Sgiliau, y mae pob disgybl (ar wahân i'r rhai hynny a eithrir yn gyfreithiol), yn dilyn cwricwlwm craidd o Gymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a

chwricwlwm dewisol o hyd at dri phwnc (Atodiad 1). Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn rhan annatod o'n darpariaeth statudol

- Cynghorir y disgyblion yn ofalus gan y Tiwtor Dosbarth (a'r Tîm Rheoli Uwch a Swyddog Gyrfau'r ysgol mewn ambell achos) ar ddiwedd Bl 9 ynghylch eu dewis er mwyn sicrhau cwricwlwm addas a chytbwys yn unol â'u gallu a'u diddordebau personol a gyrfaol fel unigolion.

- Yn y pynciau craidd, trefnir y disgyblion mewn dosbarthiadau yn ôl eu gallu, yn seiliedig ar asesiadau diwedd Bl 9. Fodd bynnag, mae'n bosib symud disgybl o un dosbarth i'r llall, ar sail ei gynnydd, yn ystod CA4. Bydd y mwyafrif llethol o'r disgyblion yn sefyll arholiad TGAU ar ddiwedd CA4 yn y pynciau craidd.

- Yn y pynciau dewisol, trefnir y disgyblion mewn dosbarthiadau gallu cymysg lle y gweithredir yr egwyddor o ddysgu gwahaniaethol a ddylai gefnogi'r disgybl ADY yn ogystal ag ymestyn y disgybl MATh. Er mwyn ysgafnhau baich unigolyn sy'n profi trafferthion difrifol mewn pwnc, a'r trafferthion hynny yn cael effaith ar berfformiad y disgybl mewn pynciau eraill, gellid trefnu bod y disgybl, gyda chaniatâd rhieni, yn gollwng y pwnc yn ystod CA4. Gall y disgybl ddefnyddio'r amser a enillir i ganolbwyntio ar ei waith mewn pynciau eraill. Bydd mwyafrif y pynciau dewisol yn cael eu harholi drwy fodd arholiad TGAU.

- Rhoddir pwyslais hefyd ar gyrsiau galwedigaethol trwy gydweithio gyda Choleg Gŵyr. Ceir cyfleoedd i ddewis opsiynau mewn harddwch a thrin gwallt, adeiladu, tirlunio a hynny'n ddibynnol ar niferoedd. Mewn achosion prin anogir unigolion i ddilyn cwrs Academi'r Ifanc (Junior Academy) dan law Coleg Gŵyr

**<u>Cwricwlwm 16+</u>**

<u>Bagloriaeth Cymru Uwch</u>

- Diwygiwyd cymhwyster Bagloriaeth Cymru Uwch a'r elfen ddysgu ohono sef y Dystysgrif Her Sgiliau yn 2023. Bellach mae pob dysgwyr ym Mlwyddyn 12 yn dilyn cymhwyster newydd Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (Lefel 3) fel rhan o gwricwlwm 16+ yr ysgol.

- Gan adeiladu ar eu cyflawniadau yn y Dystysgrif Her Sgiliau Lefel 2 (TGAU), mae'r cymhwyster yn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau, priodoleddau ac ymddygiadau cymhleth ac yn cynnig profiadau sy'n eu galluogi i baratoi'n well ar gyfer eu cyrchfan yn y dyfodol, boed hynny ym maes addysg uwch, prentisiaethau, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'r cymhwyster yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau i gefnogi llwybrau dilyniant i'r dyfodol.

- Y mae pob myfyriwr sy'n dilyn Bagloriaeth Cymru Uwch yn cyfranogi mewn rhaglen o brofiadau sy'n datblygu eu sgiliau Cynllunio a Threfnu; Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau; Creadigrwydd ac Arloesi; ac Effeithiolrwydd Personol (y 'Sgiliau Cyfannol') drwy gyfres o brojectau sef:

    - Project Cymuned Fyd-eang
    - Project Cyrchfannau'r Dyfodol
    - Project Unigol

- Addysgir y dystysgrif drwy fodd chwe gwers benodol ym Ml 12 a chwe gwers benodol ym Ml 13 ar amserlen pob myfyriwr.

- Disgwylir i bob disgybl gyflawni dau broject penodol a phroject ymchwil unigol drwy gynhyrchu portffolios sy'n cynnwys tystiolaeth o gyrhaeddiad ac a asesir a safonir yn fewnol yn gyntaf cyn eu hachredu yn allanol.

- Mae graddau Bagloriaeth Cymru Sgiliau Uwch yn cael eu cofnodi ar raddfa A* i E ac yn gyfystyr i raddau pynciau Safon Uwch/Lefel 3 eraill, gan gario'r un nifer o bwyntiau UCAS.

<u>Pynciau Dewisol</u>

- Yn ogystal â'r Fagloriaeth, fe fydd myfyrwyr (ar ôl derbyn cyngor gan aelod o'r Tîm Rheoli Uwch a/neu Bennaeth neu Is-bennaeth y Chweched Dosbarth ar sail canlyniadau CA4 a diddordebau gyrfaol) yn dewis cyrsiau sy'n addas iddynt ( fel arfer tri chwrs Lefel 3) o raglen Partneriaeth Chweched Gwyr / Bryntawe (Atodiad 1). Mae'r rhaglen hon yn seiliedig ar bum maes dysgu Llwybrau Dysgu 14-19 ac yn cynnwys felly cyfleoedd galwedigaethol. Anwythir y myfyrwyr ar ddechrau Blwyddyn 12 ynghylch systemau beunyddiol y Bartneriaeth ee. Trefniant teithio.

  *** Fel rhan o brosiect "Cymwys Ar Gyfer Y Dyfodol, Gwneud i Gymru, Cymwysterau Cymru", mae Cymwysterau Cymru, trwy gydweithio gyda CBAC yn gweithio ar ddiwygio'r cyrsiau Safon Uwch newydd i'w haddysgu o Flwyddyn 2027 ymlaen

- Ar ddiwedd Blwyddyn 12, adolygir Llwybr Dysgu'r myfyriwr o safbwynt ei Astudiaethau Opsiwn. Gwneir hyn gan y myfyriwr mewn trafodaeth a'r ysgol (TRhU, Pennaeth neu Is-bennaeth y Chweched) a'i rieni yn seiliedig ar ei gyrhaeddiad pynciol hyd hynny. Y mae'n bosib i fyfyriwr, ar ôl ymgynghori â'r personau a nodwyd yn flaenorol, ollwng cwrs ac, o bosib, ymgymryd â chwrs newydd, os yw hynny'n briodol i'w yrfa addysgol a'i gynlluniau gyrfaol.

- Addysgir cyrsiau dewisol ar sail dysgu gwahaniaethol ac anelir at gadw maint y grwpiau dysgu i nifer teg, gan gadw mewn golwg ystyriaethau megis Iechyd a Diogelwch, hyfywdra ariannol a chymhareb athro - myfyriwr. Weithiau, addysgir cwrs ar safleoedd Gŵyr a Bryntawe ac, ar adegau eraill, fe'i haddysgir naill ai yng Nghwyr neu Fryntawe. Adolygir y sefyllfa hon yn flynyddol, yn seiliedig ar anghenion cwricwlaidd y myfyrwyr.

**<u>Crefydd Gwerthoedd a Moeseg</u>**

Trwy'r Fframwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Cwricwlwm i Gymru a Fframwaith Sgiliau Addysg Grefyddol 14 – 19 caiff pob disgybl 14-19 fynediad i'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg / Addysg Grefyddol statudol. Gwneir hynny drwy sicrhau fod gofynion y Fframweithiau yn cael eu gwireddu drwy wersi ffurfiol a phrofiadau bugeiliol ac allgyrsiol y cwricwlwm ac mae hyn wedi'i fapio'n ofalus.

**<u>Dysgu Byw / Addysg Bersonol a Chymdeithasol</u>**

Mae gan raglen Dysgu Byw (Bl 7 a 9 - cyfnod treiali) / ABCh (Bl 8, 10 - 13) rôl <u>holl bwysig</u> i'w chwarae yng nghwricwlwm yr ysgol ym mhob Cyfnod Allweddol yn y gwaith o greu'r disgybl 'cyflawn', sef unigolyn sydd nid dim ond ym meddu ar hunan adnabyddiaeth gref ohono'i hunan fel dysgwr ond hefyd yn berson moesol, gofalgar a chyfrifol sydd â dealltwriaeth gadarn o faterion allweddol megis dinasyddiaeth weithredol (gan gynnwys dinasyddiaeth fyd eang), iechyd a lles emosiynol a datblygiad cynaliadwy, a'r sgiliau i ymdrin â'r materion hyn. Yn Ysgol Gyfun Gŵyr mae'r gwersi / cyfnodau Dysgu Byw / ABCh yno i gefnogi a datblygu'r addysgu a dysgu a ddigwydd o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.

*** Ym Mlynyddoedd 7 a 9 2025/2026 cyflwynir rhaglen newydd DYSGU BYW i'r dysgwyr. Caiff pob dosbarth wers y bythefnos ar Effeithiolrwydd Dysgu yn swyddogol ar yr amserlen ynghyd â chyfnodau ABCh fel gweddill yr ysgol. Gydag amser y bwriad yw cynnig gwersi ar Effeithiolrwydd Dysgu a

chyfnodau ABCH i bob blwyddyn yn yr ysgol o dan y teitl newydd DYSGU BYW. Bydd cynnwys y rhaglen DYSGU BYW yn adlewyrchu gofynion a disgwyliadau statudol Cwricwlwm i Gymru e.e. Effeithiolrwydd Dysgu; Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; Addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith; ac unrhyw agweddau eraill o'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad y teimlir bod angen sylw dwysach arnynt wrth baratoi yn ddysgwyr ar gyfer bywyd.

Cwyd y cyfleoedd yma i ennill gwell dealltwriaeth o'r materion a nodwyd uchod a datblygu sgiliau perthnasol yn rheolaidd yn rhan o feysydd llafur rhai pynciau ee. Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol, ond fe addysgir Dysgu Byw/ ABCh yn benodol drwy fodd pump bore'r flwyddyn, pan ddisodlir amserlen arferol pob disgybl gan gyfres o weithgareddau pwrpasol yn seiliedig ar 4 diben *Cwricwlwm i Gymru* a Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol Llywodraeth Cymru (2008), yn ogystal â gwers bythefnosol o Iechyd a Lles i Fl 7-9. Addysgir y disgyblion fesul dosbarthiadau cofrestru fel arfer, mewn sefyllfaoedd gallu cymysg, drwy fodd dysgu gwahaniaethol.

Fe gynllunnir cwricwlwm yn ofalus yn seiliedig ar 'Ystod' a 'Sgiliau' y Fframwaith a dewisir testunau sy'n addas i oed a diddordebau disgyblion ee. Gwrth-fwlio ym Mlwyddyn 7 a Sylweddau Anghyfreithlon ym Mlwyddyn 9. Yn ogystal, ystyrir gofynion Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles wrth gynllunio. Drwy'r holl gwricwlwm cynlluniedig yma, cynigir cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ystod o sgiliau perthnasol ee. Sgiliau Cyfannol; Sgiliau Trawsgwricwlaidd

**Y Cwricwlwm Allgyrsiol** (Cyfleoedd Dysgu Anffurfiol)

Mae gan yr ysgol gwricwlwm allgyrsiol cyfoethog sy'n apelio at ddiddordebau amrywiol disgyblion ac sy'n eu caniatáu i ddatblygu ystod o sgiliau personol allweddol. Cyfranna hwn hefyd at greu'r unigolyn 'cyflawn'. Dyma enghreifftiau o'r gweithgareddau sydd ar gael:

- Rygbi
- Criced
- Pêl rwyd
- Pêl Droed
- Hoci
- Gymnasteg
- Clwb Eco
- Siarad Cyhoeddus
- Corau
- Cerddorfa
- Clwb Celf / Tecstilau
- Clwb TGCh / Cyfrifiadureg
- Gwobr Dug Caeredin
- Cyrsiau Preswyl Llangrannog a Glan-llyn
- Ymweliadau â gwledydd tramor ee. Taith Sgïo i Awstria; Cyrsiau Preswyl yn Ffrainc / Sbaen
- Clwb Drama / Sioeau Cerdd
- Y Gymdeithas Gristnogol
- Clwb Cymreictod
- Clwb Dug Caeredin

Mae'r cwricwlwm allgyrsiol yn agored i holl ddisgyblion yr ysgol ac fe'u hanogir, drwy fodd gwasanaethau a chyfnodau bugeiliol boreol, i gyfranogi yn y cwricwlwm hwnnw. Ar adegau, y mae modd ennill achrediad ar gyfer rhai gweithgareddau allgyrsiol. Cydnabyddir cyfranogiad y disgyblion yn y cwricwlwm allgyrsiol yn eu hadroddiadau blynyddol gan y Tiwtor Dosbarth a'r TRhU. Digwydd nifer o'r gweithgareddau yn ystod awr ginio'r ysgol (12.40 - 13.30) tra bod eraill wedi'u trefnu ar gyfer diwedd y diwrnod yr ysgol (15.15 - 17.00) ac weithiau cyfnodau o wyliau.

# Crynodeb o Gynnwys Cwricwlwm 2025 / 2026 yr Ysgol

**- cylch amserlen pythefnos – (60 gwers)**

## CAM CYNNYDD 4 - CA3

### Blwyddyn 7

**MDaPh Ieithoedd** (*Cymraeg$_7$ Saesneg$_7$ Ffrangeg / Sbaeneg$_5$*) **MDaPh Mathemateg a Rhifedd$_7$**
**MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg** (*Gwyddoniaeth$_7$ Technoleg$_4$ Cyfrifiadureg$_2$*)
**MDaPh Celfyddydau** (*Celf$_2$ Cerdd$_2$ Drama$_2$*) **MDaPh Dyniaethau** (*Astudiaethau Crefyddol$_3$ Hanes$_3$ Daear$_2$*) **MDaPh Iechyd a Lles** (*Lles Corfforol$_{4+}$ Lles Cyfannol$_{1+}$ Lles Maeth$_{1+}$*) **Dysgu Byw $_1$**

### Blwyddyn 8

**MDaPh Ieithoedd** (*Cymraeg$_7$ Saesneg$_7$ Ffrangeg$_5$*) **MDaPh Mathemateg a Rhifedd$_8$**
**MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg** (*Gwyddoniaeth$_7$ Technoleg$_4$ Cyfrifiadureg$_2$*)
**MDaPh Celfyddydau** (*Celf$_2$ Cerdd$_2$ Drama$_2$*) MDaPh Dyniaethau (*Astudiaethau Crefyddol$_3$ Hanes$_3$ Daear$_2$*) **MDaPh Iechyd a Lles** (*Lles Corfforol$_{4+}$ Lles Cyfannol$_{1+}$ Lles Maeth$_{1+}$*)

### Blwyddyn 9

**MDaPh Ieithoedd** (*Cymraeg$_7$ Saesneg$_7$ Ffrangeg$_5$*) **MDaPh Mathemateg a Rhifedd$_7$**
**MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg** (*Gwyddoniaeth$_7$ Technoleg$_4$ Cyfrifiadureg$_2$*)
**MDaPh Celfyddydau** (*Celf$_2$ Cerdd$_2$ Drama$_2$*) MDaPh Dyniaethau (*Astudiaethau Crefyddol$_3$ Hanes$_3$ Daear$_2$*) **MDaPh Iechyd a Lles** (*Lles Corfforol$_{4+}$ Lles Cyfannol$_{1+}$ Lles Maeth$_{1+}$*) **Dysgu Byw$_1$**

## CAM CYNNYDD 5 - CA4

### Blwyddyn 10/11

**Blwyddyn 10** – Gwneud i Gymru - Cymwys Ar Gyfer Y Dyfodol, Cymwysterau Cymru (Ton 1 (2025-2027); Ton 2 (2026 – 2028); Ton 3 (2027-2029)

Craidd: **Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg$_9$ Iaith a Llenyddiaeth Saesneg$_9$ Mathemateg a Rhifedd$_9$** Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl $_{12}$ Ymarfer Corff$_2$ Y Dystysgrif Genedlaethol Her Sgiliau$_4$

Allgraidd: Dewis o 3 pwnc ( gweler isod)

Addysg Bersonol a Chymdeithasol Addysg Grefyddol Addysg Byd y Gwaith

**Blwyddyn 11 -** Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (Cenedlaethol / Sylfaen)

Craidd: Iaith Gymraeg, Llenyddiaeth Gymraeg$_9$ Iaith Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg$_9$ Mathemateg, Rhifedd$_9$ Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl $_{12}$ Ymarfer Corff$_2$

Y Bac Cymreig$_4$ Addysg Bersonol a Chymdeithasol Addysg Grefyddol Addysg Byd y Gwaith

**** Cynigir Tystysgrif Lefel Mynediad i ddysgwyr ADY yn y Pynciau Craidd****
** Pynciau lle mae Manylebau Newydd wedi eu datblygu (Gwneud i Gymru–Cymwysterau Cymru)

### Blwyddyn 10/11 (3 dewis / 5 gwers yr un)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dylunio a Thechnoleg | Iechyd a Gofal | Celf a Dylunio | Astudiaethau Crefyddol |
| Celf: Tecstilau | Daearyddiaeth | Astudiaethau Cyfryngau | Sbaeneg |
| Busnes | Hanes | Drama | Arlwyo |
| Celf: Ffotograffiaeth | Ffrangeg | Cerdd | Awyr Agored |
| Electroneg | Addysg Gorfforol | Gwasanaethau Cyhoeddus | SWEET |
| Celf 3D | Cyfrifiadureg | | |

*** Wrth i don 2 / 3 Gwneud i Gymru - Cymwys Ar Gyfer Y Dyfodol, Cymwysterau Cymru gael eu cyflwyno datblygir manylebau TGAU; TAAU; Sgiliau Gwaith a Bywyd; Cymwysterau Sylfaen newydd

**Cwricwlwm 16+: Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (Uwchradd ) 6 gwers**

1. ABCh  Addysg Byd y Gwaith  Addysg Grefyddol **yn ychwanegol**

2. **Pynciau Dewisol** o fewn Partneriaeth Chweched Gŵyr/Bryn Tawe: Cyrsiau Lefel 3: Safon Uwch Gyfrannol / Uwch / Cymhwysol a Galwedigaethol - 10 gwers pob pwnc:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Arholiadau Lefel 3 / UG / Safon Uwch/ Cymhwysol a Galwedigaethol | Addysg Gorfforol<br>Ast. Crefyddol<br>Ast. Busnes<br>Ast. Cyfryngau | Bioleg<br>Celf<br>Cemeg<br>Cerdd<br>Cymraeg<br>Daearyddiaeth<br>Drama | Dylunio a Thech<br>Electroneg<br>Ffiseg<br>Ffrangeg<br>Gwas. Cyhoeddus<br>Gwleidyddiaeth | Hanes<br>Iechyd a Gofal<br>Mathemateg<br>Ffotograffiaeth<br>Saesneg Llen | Seicoleg<br>Cyfrifiadureg<br>Chwaraeon<br>Peirianneg<br>Gofal Plant<br>Troseddeg |

3. **Dewisol:** Cyrsiau Lefel 2:

| | | |
|---|---|---|
| Arholiadau Lefel 1/2 / TGAU / | TGAU: Cymraeg ail Sefyll | TGAU: Mathemateg ail sefyll<br>TGAU: Saesneg ail sefyll |

*** Fel rhan o Brosiect Gwneud i Gymru - Cymwys Ar Gyfer Y Dyfodol, Cymwysterau Cymru ceir ymgynghori Cenedlaethol ar Fanylebau newydd i’w cyflwyno erbyn Medi 2027***

(Adolygwyd: Medi 2025 - GW)